



CREATIVITY IN THE UK

**COFNODION CYFARFOD ANFFURFIOL BWRDD FESTIVAL 2022 LTD TRWY
GYNHADLEDD FIDEO DYDD IAU 11 AWST 2022, 10:30 – 11:30**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED")

Yn bresennol:

Y Fonesig Vikki Heywood DBE (VH)	Cadeirydd y Bwrdd, Anweithredol
Amali de Alwis MBE (AdA)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr. Hayaatun Sillem CBE (HS)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Yr Athro Andrew Thompson CBE (AT)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Priya Lakhani OBE (PL)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Lloegr
Liam Hannaway (LH)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon
Dr. Bridget McConnell CBE (BMcC)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli'r Alban

Hefyd yn bresennol:

Martin Green CBE (MG)	Prif Swyddog Creadigol
Phil Batty (PB)	Cyfarwyddwr Gweithredol
Ian Reid (IR)	Prif Swyddog Gweithredol
Caroline McGrory (CMcG)	Prif Swyddog Cyfreithiol
David Gray (DG)	Prif Swyddog Ariannol
Laura O'Flynn (LO'F)	Rheolwr Llywodraethu

65/22 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol gan longyfarch y Tîm Gweithredol ar gyflawni Gemau'r Gymanwlad gwych.

Nododd y Cadeirydd mai cyfarfod anffurfiol y Cyfarwyddwyr yn unig oedd hwn yn ymroddedig i adolygiad data i hybu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) UNBOXED cyn cyflwyno adroddiad y cyllidwyr a ddisgwyllir 17 Awst 2022.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Faraz Tasnim, Rob Smith, Dr. Maggie Aderin-Pocock a Roger Lewis,

66/22 Adolygiad casglu data

Fframiodd PB yr eitem agenda unigol drwy atgoffa'r Bwrdd o'r dull strategol o fesur manteision UNBOXED a'r strwythur gwerthuso cyn amlinellu'r rhagamcanion data diweddaraf ar draws prosiectau byw, digidol, darlledu, dysgu a chyfranogi.

Amlinellwyd bod y rhagamcanion data diweddaraf yn seiliedig ar gynlluniau gweithgareddau diweddaraf pob un o'r 10 comisiwn, sy'n parhau i dyfu ac esblygu gyda datblygiad y prosiect.

Trafododd y Bwrdd y diffiniadau sy'n sail i bob maes ymgysylltu â'r gynulleidfa gan bwysleisio pwysigrwydd cyfleu'r rhain fel ffigyrau ymgysylltu yn hytrach na chyrhaeddiad lefel uchel. Cytunodd y Bwrdd ar y strwythur a'r fformat wedi'u diweddarau ar gyfer y rhagamcanion data diweddaraf a gofynnodd am grynhoi'r is-gyfansymiau yn fertigol yn ôl y math o ymgysylltu ac yn llorweddol yn ôl comisiwn.



CREATIVITY IN THE UK

Gofynnodd y Bwrdd i'r Weithrediaeth roi Statws Coch Melyn a Gwyrdd i'r sefyllfa bresennol, er mwyn deall y ffigyrau yng nghyd-destun y perfformiad presennol. Nododd HS fod y llywodraeth wedi nodi buddsoddiad mewn diwylliant fel rhan o'r genhadaeth balchder mewn lle ym Mhapur Gwyn Ffyniant Bro ac awgrymodd y byddai'n werth cysylltu â'r adran codi'r gwastad, tai a Chymunedau (DLUHC) ynghylch cysylltiadau posibl â'r gwaith ar fesur effaith ar gyfer UNBOXED.

Tynnodd y Bwrdd sylw at bwysigrwydd naratif ansoddol a chyd-destunol i adlewyrchu cyrhaeddiad daearyddol eang UNBOXED, gan gynnwys mewn ardaloedd mwy gwledig a'r ymgysylltiad eang ar draws comisiynau llywodraethol Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban, a Chymru. Sicrhodd MG yr ymdrinnir â'r stori a'r naratif bob amser ar yr un pryd â'r data i helpu i roi cyd-destun. Cadarnhaodd PB fod mesur cenedl-benodol yn rhan o'r fframwaith gwerthuso cyffredinol y cytunwyd arno gan y Gweithgor Gwerthuso a Monitro (EMWG) lle cynrychiolir pob un o'r pedair Llywodraeth, UNBOXED a'r tri chorff cyflenwi strategol.

Cadarnhawyd bod y Bwrdd yn comisiynu adolygiad cipolwg gan ymgynghorydd allanol i gyd-fynd ag ymdrechion cysylltiadau cyhoeddus Unboxed yn yr Hydref - i roi cyd-destun ac 'adrodd stori'r wyl' drwy enghreifftiau a gyda'r gobaith o gael dewis bach o ddata rhagarweiniol. Bydd hyn yn gweithredu fel 'rhaglun' ar gyfer rhyddhau'r adroddiad gwerthuso ffurfiol llawn ym mis Chwefror 2023. Cadarnhaodd MG fod asiantaeth gyfathrebu strategol yn gweithio gyda'r Weithrediaeth a'r ymgynghorydd i fireinio ac adrodd pennod olaf stori UNBOXED.

Gofynnodd y Bwrdd am eglurder ar ddiben adolygu sefyllfa bresennol data UNBOXED ar yr adeg hon yn y rhaglen ac i ba raddau y dylai hyn ddarparu ymestyniad a her bellach. Cadarnhaodd MG mai'r set ddata ddiweddaraf oedd allbwn adolygiad helaeth o'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cyflawni ar draws y 10 comisiwn ac roedd hyn yn adlewyrchu'r capasiti ymestyn presennol. Diben cyflwyno'r tabl trosolwg ar hyn o bryd yw rhoi trosolwg tryloyw i'r Bwrdd o sylfeini sylfaenol yr hyn sydd, wedi ac yn parhau i gael ei gyflawni. Ymrwymodd y Tîm Gweithredol i graffu'n barhaus ar y sefyllfa ac i newid cwrs yn ôl y gofyn, gan hefyd nodi cyfleoedd i wella'r sefyllfa a mynd o 'dda i wych'. Roedd y Cadeirydd, PL ac AT yn rhan o weithgor a oedd wedi cael golwg cynnar ar y set ddata a byddai AT a VH yn parhau i ymgysylltu'n agos wrth i'r data ddatblygu.

Gofynnodd y Bwrdd i'r tîm ganolbwyntio eu hymdrechion ar gymryd y cyfleoedd sy'n weddill i Unboxed i symud o 'dda i wych' a chanolbwyntio eu hadrodd yn y cyd-destun hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd gan gynnwys unrhyw ailddyrrannu arian sydd ei angen.

Cymeradwyodd y Bwrdd y sefyllfa fel y'i cyflwynwyd. Crynhodd y Cadeirydd a nododd fod safle cyffredinol y data yn drawiadol a chyfoethog, gyda naratif gwaelodol cryf i gyfleu cryfderau ac effaith unigryw UNBOXED.

PENDERFYNWYD BOD Y BWRDD yn cymeradwyo'r KPIs a gofynnodd i'r holl ddata perthnasol gael eu cofnodi o'u cymharu â'r targedau diwygiedig o hyn allan.

CAMAU GWEITHREDU: PB i ddiweddarau tabl y ffigyrau gydag adborth y Bwrdd.

CAMAU GWEITHREDU: Cytunodd MG i ddsbarthu'r briffiau terfynol ar gyfer yr adroddiad ciplun a'r asiantaeth gyfathrebu strategol i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

67/22 Unrhyw Fusnes Arall

Ers i'r Bwrdd gyfarfod ddiwethaf, rhoddodd MG yr wybodaeth ddiweddaraf sef bod Our Place in Space bellach yn fyw yng Nghaergrawnt, cynlluniwyd digwyddiad rhanddeiliaid UNBOXED yng Nghaeredin y penwythnos hwnnw, mae adeiledd SEE MONSTER wedi cyrraedd Weston Super-Mare ac mae blaengynllun ar gyfer gweithgaredd ym mis Medi / Hydref wedi'i drefnu ar gyfer Agenda cyfarfod y Bwrdd ar 26 Awst.

Gofynnodd y Bwrdd, yng Nghyfarfod nesaf y Bwrdd, i'r Tîm Gweithredol gyflwyno argymhellion ynghylch sut y gellir defnyddio unrhyw Gyllideb oes wrth gefn sy'n weddill i wella effaith gyffredinol y rhaglen bresennol. Cadarnhaodd yr ARAC y gwnaethpwyd cais am hyn yn y cyfarfod ar 3 Awst ac y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn cynnal asesiad fforddiadwyedd cyn y Bwrdd nesaf.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30. Atgoffwyd pawb mai dyddiad cyfarfod ffurfiol nesaf y Bwrdd yw 26 Awst 2022, ar-lein.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:

Cyfarwyddwyr y Bwrdd

Arsylwyr y Bwrdd

Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd: 23 Awst 2022

Dyddiad dychwelwyd at y Gweinyddwr: 25 Awst 2022

Dyddiad dosbarthu: 26 Awst 2022